Rhif: WG30363

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog

Tachwedd 2016

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol 987-1-4734-8057-5

**Cyflwyniad**

Ar 13 Hydref 2016, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant y Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog i ymgynghori arno. Bwriad y Llwybr yw darparu cyngor a chymorth ar yr opsiynau sydd ar gael o ran tai i bobl sydd ar fin gadael y lluoedd arfog.

Diben yr ymgynghoriad oedd cael barn ac adborth ar y Llwybr.

**Yr Ymgynghoriad**

Cyfnod yr ymgynghoriad oedd 15 Medi 2016 tan 13 Hydref 2016. Darparwyd fersiynau ar-lein o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflenni ymateb.
Gofynnwyd pum cwestiwn yn y ddogfen a derbyniwyd cyfanswm o 10 ymateb i'r ymgynghoriad. Mae rhestr o'r ymatebwyr isod ac mae'n cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector a chyrff ymbarél.

Yn ogystal, cynhaliwyd gweithdy wrth lansio'r ymgynghoriad, ynghyd â thri gweithdy arall yng Nghyffordd Llandudno, Y Drenewydd a Merthyr Tudful. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ymatebion a sylwadau a gafwyd yn ystod y gweithdai hynny.

**Ymatebwyr**

| **Ymatebwyr i'r ddogfen ymgynghori** | |
|---|---|
| Grŵp Monitro Tai Ceredigion | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Y Lleng Brydeinig Frenhinol | Cymdeithas Ymarferwyr Cyfraith Tai |
| Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Bro Morgannwg |
| Cartrefi Cymunedol Cymru | Cymorth Cymru |
| *Barnardos* | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | |
| **Y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai** | |
| *Veterans* | Conwy Housing Solutions |
| *SAAFA* | Change Step |
| Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | Lluoedd Ei Mawrhydi – Y Fyddin |
| Cyngor Sir Powys | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| *Hire a Hero* | Cartrefi ar gyfer Cyn-filwyr Cymru |
| Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol Gwent | Gofal a Chymorth Gwalia |
| *Alabaré* | Tai Gogledd Cymru |

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'r ymatebion bellach wedi cael eu hystyried ac maent wedi cael eu defnyddio fel sail i waith datblygu pellach ar y *Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog*.

**Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad**

**1. Ydych chi'n cytuno bod angen cynllun neu lwybr tai ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog?**

O'r 10 o ymatebion a dderbyniwyd, roedd 100% o'r farn bod angen y Llwybr hwn.

- Roedd adborth ar y Llwybr yn dynodi bod cryn dipyn o gefnogaeth iddo fel yr oedd wedi'i lunio ac mae'r farn oedd ei fod yn gam cadarnhaol o ran cydnabod cyfraniad aelodau'r lluoedd arfog i'r wlad.

- Dywedodd Cyngor Sir y Fflint y bydd y Llwybr yn ddefnyddiol i helpu cyn-aelodau'r lluoedd arfog ac ymarferwyr drwy'r broses a sicrhau dealltwriaeth gyson o gyfrifoldebau.

- Dywedodd Cymorth Cymru bod Llwybr cydlynol a chyson ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion cyn-aelodau'r lluoedd arfog yn gam cadarnhaol.

- Fodd bynnag, cafwyd pryderon ynghylch yr awgrym y byddai cymorth yn para am ddwy flynedd ar ôl rhyddhau, a nodwyd nad yw materion iechyd meddwl, yn enwedig Anhwylder Straen Wedi Trawma weithiau'n ymddangos tan beth amser ar ôl rhyddhau ac y gallai hyn fod tu hwnt i'r cyfnod o ddwy flynedd.

Ymhlith y sylwadau pellach o'r gweithdai roedd:

- Mae angen mwy o ystyriaeth o filwyr wrth gefn a'u mynediad hwy at dai ond nodwyd hefyd fod nifer cyfyngedig o dai ar gael ac felly efallai y byddai angen blaenoriaethu tai i bobl a anafwyd neu yr effeithiwyd arnynt o ganlyniad i'w gwasanaeth.

- Dylid rhoi ystyriaeth bellach hefyd i gyfartalu'r cymorth i ddinasyddion nad ydynt o'r DU / dinasyddion nad ydynt yn gymwys am gymorth ar hyn o bryd.

- Awgrymwyd y gallai'r llwybr gynnwys cyngor ar gymorth i wŷr a gwragedd a theuluoedd mewn achos o brofedigaeth neu wahanu yn effeithio ar y sefyllfa o ran tai.

- Dywedodd Barnardos nad yw'r Llwybr yn rhoi sylw i'r cymorth ychwanegol y gellid bod ei angen ar bobl sy'n gadael y lluoedd yn annisgwyl, megis pobl sy'n cael eu rhyddhau ar sail feddygol.

**2. Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau a ddarperir i aelodau'r lluoedd arfog, cyn ac ar ôl eu rhyddhau o'u gwasanaeth, yn briodol?**

O'r ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd 80% o'r farn ei fod yn briodol.

- Awgrymodd y Lleng Brydeinig Frenhinol y dylid mynd ymhellach ac ystyried cyhoeddi'r ddogfen, wedi'i chyfuno ac ar wahân, er mwyn iddi fod ar gael ar wahân i filwyr sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr, er mwyn gwneud y Llwybr yn haws i'r bobl sy'n edrych am y ffordd hawsaf o gael gwasanaethau.

- Dywedodd Cymorth Cymru fod y Llwybr, ar y cyfan, yn briodol. Fodd bynnag, mae ganddynt bryderon nad oes cwestiwn penodol ynghylch iechyd meddwl, er enghraifft nid yw `Beth os wyf wedi cael fy anafu neu fy anablu wrth wasanaethu?’ yn delio ag iechyd meddwl o gwbl.

- Dywedodd Grŵp Monitro Tai Ceredigion y byddai’n ddefnyddiol cael cysondeb ar draws Cymru ar gyfer cofrestrau tai, o ran fformat ac ymagwedd; gan gynnwys y gallu i gynnig am eiddo sydd ar gael mewn ardaloedd eraill.

- Dywedodd Cyngor Sir Conwy mai’r aelodau o’r lluoedd arfog eu hunain ddylai nodi eu blaenoriaethau o ran eu hadsefydliad ar ôl iddynt gael eu rhyddhau ac y dylent gael gweithio gyda staff ym maes opsiynau tai os o angen cymorth arnynt. Roedd Conwy hefyd o’r farn ei bod yn bwysig datblygu cysylltiadau gyda thimau adsefydlu yn y Lluoedd Arfog er mwyn sicrhau y cyfnewidir gwybodaeth yn dda ac y ceir gwell dealltwriaeth o’r negeseuon a roddir i aelodau’r lluoedd arfog ynghyd â dealltwriaeth well o’u disgwyliadau.

Roedd 20% o’r farn nad oedd y Llwybr yn briodol.

- Dywedodd Barnardos bod angen gwneud mwy i gefnogi cyn-aelodau’r lluoedd arfog cyn eu rhyddhau ac ar ôl eu rhyddhau o’u gwasanaeth.

- Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yr ymddengys nad oes Llwybrau penodol ar gyfer aelodau’r lluoedd arfog y tu hwnt i’r hyn sydd i’w gael yn nyletswyddau Deddf Tai (Cymru) 2014. Hefyd, awgrymodd y Cyngor fod angen mwy o bwyslais ar gynlluniau lleol a mwy o gyswllt gyda’r awdurdod lleol perthnasol.

Ymhlith y sylwadau pellach o’r gweithdai roedd:

- Bod angen paratoi taflenni cryno i gyfeirio pobl sydd angen cymorth, a hynny’n unol â’u sefyllfa. Gellid cynnwys pwyntiau cyswllt – o bosib ar lefel leol.
- Dylid annog pobl sydd ag angen o ran tai i gysylltu â’r awdurdod lleol tua chwe mis cyn iddynt gael eu rhyddhau i geisio sicrhau y gall yr awdurdod ddod o hyd i lety priodol iddynt.
- Dylid rhoi cyngor a chysylltiadau priodol ar gyfer y cymorth sydd ar gael drwy ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd eraill.

**3. Fel cyn-aelod o’r lluoedd arfog, a ydych chi o’r farn y byddai’r llwybr yn eich helpu chi a/neu eraill i ddeall y dewisiadau a’r opsiynau sydd ar gael i chi yng Nghymru o ran tai?**

Ni chafodd y cwestiwn hwn ei ateb fel rhan o’r ymatebion ffurfiol i’r ymgynghoriad. Fodd bynnag, cafwyd adborth drwy’r gweithdai ac mewn trafodaethau fel a ganlyn:

- Mae’n hanfodol bod cymorth amserol ar gael i gyn-aelodau’r lluoedd arfog wrth iddynt ail-addasu i fywyd fel dinesydd cyffredin. Yn ogystal, rhaid i’r cymorth hwnnw roi ystyriaeth i effeithiau parhaol trawma.

- Argymhellir bod y fersiwn terfynol yn cael ei ysgrifennu mewn iaith glir a hygyrch gan ddefnyddio mwy o bwyntiau bwled er mwyn iddo fod yn fwy cryno ac yn haws ei ddarllen.

**4. Fel ymarferydd, a ydych chi o'r farn y byddai'r llwybr yn gymorth i chi o ran eich helpu i gyfeirio aelodau a chyn-aelodau'r lluoedd arfog at ddewisiadau a datrysiadau tai a fyddai'n diwallu eu hanghenion?**

Pan dderbyniwyd sylwadau gan ymarferwyr, roeddent yn gadarnhaol ar y cyfan o ran y cymorth y gallai'r Llwybr hwn ei ddarparu.

- Dywedodd y Lleng Brydeinig Frenhinol nad yw'r siartiau llif, fel y maent ar hyn o bryd, yn ategu nac yn crynhoi'r wybodaeth y Llwybr yn dda iawn. Maent o'r farn bod angen mwy o fanylder; er enghraifft pryd ddylai rhywun sy'n gadael y Lluoedd gysylltu â'r awdurdod lleol neu Swyddfa Cyngor am Dai'r Lluoedd.  Ymhellach, maent yn awgrymu fformat gwahanol lle gellid rhannu'r siartiau llif yn dair elfen: rhentu preifat, rhentu cymdeithasol a phrynu t? - gyda gwybodaeth benodol am bob elfen.

- Yn yr un modd, mae Tai Cymunedol Cymru wedi argymell y dylid diwygio'r siartiau llif yn gyfres o Lwybrau, megis opsiynau perchen ar dai. Ymhellach, maent yn argymell y dylid dileu'r cyfeiriad at y Rhaglen Cefnogi Pobl gan nad yw'n gymwys i bawb ac mae cyllid arall ar gael.

- Dywedodd Cymorth Cymru fod y ddogfen yn nodi camau clir i ymarferwyr, a'i bod yn ffordd wych iddynt ddeall beth yw rhan eu sefydliad neu wasanaeth yn y Llwybr.

- Nodwyd bod yr amrywiadau daearyddol ledled Cymru yn golygu ei bod yn anodd deall pa gymorth a allai fod ar gael yn lleol. Felly, mae angen i'r Llwybr gael ei hyrwyddo ar lefel leol, a'r cyfleoedd am gymorth sydd ar gael, yn ogystal â hyrwyddo gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael gan awdurdodau lleol.

- Dywedodd Cyngor Sir y Fflint y bydd y Llwybr yn ddefnyddiol i sefydliadau trydydd sector wrth helpu cyn-filwyr drwy broses. Fodd bynnag, er ei bod yn ddefnyddiol i godi ymwybyddiaeth o'r hyn y gellid ei ddisgwyl o ran camau rhesymol, mae'r angen am ymgysylltiad gan yr ymgeisydd hefyd yn ddefnyddiol.

- Dywedodd Cyngor Sir Conwy fod y Llwybr yn bwynt cyfeirio da ar gyfer trafodaethau gyda Chyn-filwyr, fodd bynnag, mae gwahanol heriau ym mhob ardal awdurdod lleol o ran y stoc o dai sydd ar gael a chysylltiad cynnar (6 mis cyn rhyddhau), a bydd y tîm dewisiadau tai lleol yn helpu i sicrhau bod aelodau'r lluoedd arfog yn cael llawer o wybodaeth am y sefyllfa leol, yn arbennig mewn perthynas â'r prinder tai cymdeithasol sydd ar gael.

- Fodd bynnag, roedd Cymdeithas Ymarferwyr y Gyfraith Dai o'r farn y gellid gwella'r Llwybr yn fawr trwy fewnosod adran ar y dechrau er mwyn pennu'r fframwaith cyfreithiol perthnasol mewn cysylltiad â digartrefedd a dyraniadau, sef y dyletswyddau allweddol a phwy sy'n gyfrifol amdanynt.  At hynny, byddai'n ddefnyddiol cyfeirio ymarferwyr at y darpariaethau perthnasol yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Ymhlith y sylwadau pellach o'r gweithdai roedd:

- Gallai'r cyd-destun deddfwriaethol fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr ond ddim i gyn-bersonel y gwasanaethau milwrol. Dylid ei roi yng nghefn y ddogfen a'i wneud mor gryno â phosib

**5. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y Llwybr?**

- Yn ôl y Lleng Brydeinig Frenhinol, er bod gwerth i'r adran 'Nid wyf yn siŵr a fydda i'n gallu ymdopi y tu allan i'r Lluoedd', nid yw'n mynd yn ddigon pell i nodi meysydd eraill lle gallai fod angen cefnogaeth arnynt, hynny ar ben y cymorth iechyd meddwl a ddarperir gan Veterans GIG Cymru. Efallai y bydd angen cynnig cefnogaeth y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael trwy'r trywydd hwnnw.

- Ni ystyrir bod angen â blaenoriaeth ar y rheini sy'n ymadael â'r lluoedd ar ôl treulio un noson mewn 'llety sefydlog'. Ymddengys bod hynny'n cyfyngu ar yr help y gall y Llwybr hwn ei gynnig i gyn-filwyr a allai fod wedi gadael y lluoedd beth amser ynghynt ac a allai ddatblygu problemau sylweddol wrth i amser fynd yn ei flaen. Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i hyn gan fod Cyfamod y Lluoedd Arfog yn annog mwy o hyblygrwydd a disgresiwn ynghylch y mater hwn.

- Dywedodd Cymorth Cymru, o ran cynnal tenantiaethau, mai dim ond y Rhaglen Cefnogi Pobl gafodd ei enwi. Maent yn teimlo bod potensial cydnabod gwasanaethau eraill.

- Dywedodd Cyngor Sir Conwy y gellid rhoi mwy o wybodaeth am y cymorth a'r help i deuluoedd a'r symud o lety i deuluoedd i fywyd sifiliaid. Yn arbennig, a ddylai neu a gaiff teulu adael yn gynnar er mwyn cael sefydlu cartref cyn eu bod yn cael eu rhyddhau'n swyddogol fel cyn-filwyr.

- Dywedodd Grŵp Monitro Tai Ceredigion bod y Llwybr yn ddogfen ragorol ond carent bwysleisio bod angen adolygu'r Safonau Tai'n barhaus ledled Cymru, hynny yn y sector Gyhoeddus ac yn y sector Breifat.

- Rhaid wrth lwybrau cyfeirio clir a phenodol a rhaid gofalu bod gwybodaeth leol berthnasol yn cael ei rhannu'n fuan yn y broses er mwyn sicrhau digon o gefnogaeth i bersonél.

- Ceir cyfeiriadau yn y Llwybr at Gymorth â Thenantiaethau. Ond dylid cydnabod nad yw pob gwasanaeth cymorth yn ymdrin â math penodol o ddeiliadaeth, felly gallai defnyddio'r geiriad "Cymorth â Thai" fod yn fwy priodol.

- Ceir sylwadau yn y Llwybr am fudd-daliadau. Fodd bynnag, nid oes fawr ddim y gellid ei wneud i helpu'r rheini sy'n ceisio mynd yn ôl i weithio neu sydd ar gyflogau isel lle gallai rheoli arian yn fwy cyffredinol fod yn bwysicach.

- Dywedodd Cyngor Bro Morgannwg bod cynghorau a chymdeithasau tai unigol hefyd yn darparu help trwy eu cynlluniau eu hunain. At hynny, er nad yw landlordiaid cymdeithasol a chynghorau yn gofyn am fond fel arfer, gallai'r sector rhentu preifat ofyn am renti uwch.

- Nododd y Lleng Brydeinig Frenhinol bod elusennau fel y Lleng yn cynnig cyngor ar fudd-daliadau a chymorth lles ac y dylid tynnu sylw at hyn ar dudalen 15 y ddogfen.

- Awgrymodd Cartrefi Cymunedol Cymru y dylid ychwanegu adran sy'n disgrifio'n fanwl sut mae cael budd-dal tai. Dylid cynnwys y cyfyngiadau a ddaw i hyn, gan esbonio'r effaith ar bobl 18-21 oed a 22-35 oed a nodi'r opsiynau sydd ar gael iddynt fel tai a rennir.

- Dywedodd Barnardos nad yw'r datganiad bod y Sector Rhentu Preifat yn cynnig llai o ddiogelwch deiliadaeth yn ddefnyddiol iawn gan ei fod yn tanseilio'r cynnydd sydd wedi'i wneud i annog pobl i weld y sector preifat fel opsiwn tai ymarferol.

- Dywedodd Barnardos hefyd y carent weld llwybr cyflogaeth yn cael ei sefydlu ochr yn ochr â'r Llwybr Tai, neu'n rhan annatod ohono, gan y byddai hyn yn cael effaith uniongyrchol ar yr opsiynau tai fyddai ar gael.

- Nododd Cymdeithas Ymarferwyr y Gyfraith Dai fod angen diweddaru rhai cyfeiriadau at ddogfennau a deddfwriaeth.

Ymhlith y sylwadau pellach o'r gweithdai roedd:

- Mae llawer o amrywiaeth o ran sut yr hyrwyddir cynlluniau bond ar draws Cymru, ac nid oes llawer o ymwybyddiaeth o'r cynlluniau. Gellid gwneud mwy i sicrhau bod personél a darparwyr yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael yn eu hardal, yn enwedig yr hyn sydd ar gael gan yr awdurdod lleol. Gellid gwneud hyn drwy gyhoeddi, fesul ardal awdurdod lleol, taflen wybodaeth i bobl sy'n dymuno dychwelyd i'r ardal.

- Mae angen pwysleisio'r angen i gyn-aelodau'r lluoedd arfog gysylltu â'r awdurdod lleol yn gynnar, a hynny'n gynt yn y ddogfen. Mae cyfeirio at hyn yn glir yn y siartiau llif.

- Awgrymir bod rhestr cysylltiadau cyngor yn helpu i sicrhau bod goblygiadau statudol yn cael eu cyflawni a bod cysylltiadau defnyddiol yn cael eu darparu at y diben hwn. Fodd bynnag, lle bo angen ychwanegol, dylai rhestr gysylltiadau fod yn gynhwysfawr ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

- Pennodd y gweithdai'r angen i ddarparu eglurder ynghylch materion 'cyswllt lleol: beth sy'n cyfri fel cyswllt lleol, a'r gwell tebygolrwydd o ddod o hyd i lety priodol ar gael eu rhyddhau.

- Nodwyd yn yr ymatebion ffurfiol ac yn y gweithdai bod angen gwybodaeth ar y cymorth sydd ar gael i deuluoedd pobl sy'n mynd i'r carchar neu i garchar y fyddin.

- Mae'n hanfodol rheoli disgwyliadau unigolion yn briodol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r angen iddynt geisio datrys eu sefyllfa dai ac o ran pa help sydd ar gael iddynt.
- Links need to be made to health boards, GP's and others to ensure that they are aware of the Pathway and how it may link into services they already offer.

## Rhwystrau i Weithrediad y Llwybr

Fel rhan o’r gweithdai, gofynnwyd cyfres o gwestiynau ynghylch rhwystrau i weithrediad llwyddiannus y Llwybr. Dyma’r ymatebion a gafwyd:

- Mae angen cynllun strwythuredig ar gyfer lledaenu’r Llwybr terfynol, gyda chysylltiadau ag Unedau’r Lluoedd Arfog i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bersonél cyn iddynt gael eu rhyddhau.
- Angen gwneud gwell defnydd o Hyrwyddwyr Lluoedd Arfog Awdurdodau lleol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o’r Llwybr.
- Angen datblygu rhywbeth mwy cryno ar gyfer cyn-filwyr a’u teuluoedd i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i helpu eu hunain a pha gymorth sydd ar gael iddynt.
- Ymwybyddiaeth gyffredinol y gall fod yn anodd gwybod a yw pobl ddigartref yn gyn-aelodau o’r lluoedd arfog ac anoddach fyth gwybod a ydynt yn ymwybodol o’r Llwybr.
- Gall llawer o’r rhanddeiliaid allweddol fod y tu allan i Gymru ac mae’n hanfodol eu bod yn ymwybodol o’r Llwybr, yn enwedig o ran personél sy’n dychwelyd i Gymru.
- Roedd symud i Gredyd Cynhwysol yn bryder sylweddol ac mae angen ymwybyddiaeth o hyn a diwygiadau eraill i’r system les a allai effeithio ar allu unigolyn i ddod o hyd i gartref. Gallai rhannu cartref fod yn syniad da i’r grŵp yma o bobl?

## Sylwadau i Gloi

Mae cefnogaeth ar draws y bwrdd i’r Llwybr. Mae’r ymgynghoriad wedi pennu nifer o feysydd ychwanegol i’w hystyried a’u datblygu ymhellach a chaiff y rhain eu hystyried yn ddwys wrth fireinio’r Llwybr.

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd amser i ymateb i’r ymgynghoriad hwn a phawb a gyfrannodd at y gweithdai. Mae eich barn wedi bod yn bwysig fel sail i’r gwaith o ddatblygu’r Llwybr ac rydym yn ddiolchgar iawn am eich ymdrechion.